Cyntaf nodedig i Ysgol Aberllydan



Ddydd Mercher (25ain Tachwedd) mwynhawyd yr hyn a ddisgrifiwyd fel "diwrnod arbennig" gan Ysgol Aberllydan sydd â 113 o ddisgyblion.

Estynnwyd ac ailwampiwyd hi'n ddiweddar - am £2.2 miliwn - dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - yr ysgol gyntaf yn Sir Benfro i fanteisio ar y cynllun.

Mae'r rhaglen yn brosiect hirdymor o bwys, lle mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol gyda'r bwriad o greu cenhedlaeth o ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghymru.

Bydd y cydweithredu unigryw gyda Llywodraeth Cymru'n gweld buddsoddi £150 miliwn yn ysgolion uwchradd a chynradd Sir Benfro yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae'r gost nid ansylweddol honno'n cael ei dwyn ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro.

Wrth agor yr adeilad newydd yn swyddogol dywedodd Wynne Evans, Cadeirydd y Cyngor, ei bod yn "ddiwrnod arbennig" i'r ysgol a'r Awdurdod.

"Rydym yn ei weld fel arian a fuddsoddwyd yn ddoeth i sicrhau bod modd dysgu cenedlaethau a ddaw yn yr adeiladau diweddaraf, modern" meddai'r Cynghorydd Evans.

Mae'r estyniad newydd y tu cefn i'r adeilad presennol yn cynnwys ystafelloedd dosbarth newydd, meithrinfa a neuadd newydd gyda chegin newydd sbon.

Yn y seremoni agoriadol diolchodd Gareth Lewis, y Pennaeth Gweithredol, i'r disgyblion a'r staff am eu hamynedd yn ystod y gwaith adeiladu a wnaed gan Andrew Scott Limited, y contractwyr.

Roedd hefyd yn ddiwrnod i'w gofio i Elaine Hughes, Cadeirydd y Llywodraethwyr. Dyma ei chyhoeddiad olaf cyn rhoi'r gorau ar ôl pedair blynedd yn y swydd.

Geiriad
Yn y llun mae Katy Hill ac Evan Thomas, Llysgenhadon yr Ysgol, gyda Wynne Evans, Cadeirydd y Cyngor, oddi allan i'r ysgol newydd. Gyda nhw, o'r chwith, mae Sue Perkins, Aelod y Cabinet dros Addysg; Elaine Hughes; Jamie Adams, Arweinydd y Cyngor; Gareth Lewis; a Peter Morgan, Cynghorydd Sir lleol.